# Papur Bwrdd

18 Ionawr 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Ardaloedd Draenio Mewnol – Praeseptau, Cyfraddau ac Ardollau 2018–19** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **NRW B B 3.18** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | **Rob Bell, Pennaeth Cyllid** |
| **Cyflwynwyd y Papur gan:** | **Rob Bell, Pennaeth Cyllid** |
| **Noddwyd y Papur gan:** | **Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol dros dro** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo ardollau arbennig, cyfraddau draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2018–19. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>**Edrych ar y tymor hir** – Bydd cynigion y gyllideb yn ffurfio rhan o'r strategaeth tymor hwy i sicrhau bod Ardaloedd Draenio Mewnol wedi'u paratoi'n ariannol ar gyfer cyflawni eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.<br>**Gweithredu mewn ffordd integredig** – Bydd gweithio ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r grwpiau cynghori yn sicrhau bod ein targedau yn cael eu hintegreiddio gyda'r adnoddau sydd ar gael.<br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –** Mae cynigion y gyllideb wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghoriad gyda'r grwpiau cynghori.<br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol** – Mae ein rhaglenni gwaith yn cynnwys mesurau rydym yn eu cyflawni ar y cyd.<br>**Atal materion rhag digwydd –** Caiff y cyllidebau arfaethedig eu gosod gyda mewnbwn gan y grwpiau cynghori a staff Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag edrych ar berfformiad yn y gorffennol er mwyn sicrhau gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd. |

## Mater

1. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo argymhellion y Grŵp Cynghori (Bwrdd) Rheoli Perygl Llifogydd, a fydd yn ystyried ardollau arbennig, cyfraddau draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2018–19.

## Cefndir

2. Mae'r Bwrdd eisoes wedi cytuno i ddirprwyo ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllid hyn i'r Grŵp Cynghori (Bwrdd) Rheoli Perygl Llifogydd, a fydd yn cyfarfod ar 12 Ionawr 2018.

3. Roedd yr holl argymhellion wedi'u cytuno gyda chyfarfodydd cynghori amrywiol yr Ardaloedd Draenio Mewnol cyn i'r Grŵp Cynghori (Bwrdd) Rheoli Perygl Llifogydd gyfarfod.

## Asesiad

4. Byddwn ni'n rhoi diweddariad ar lafar o gyfarfod y Grŵp Cynghori (Bwrdd) Rheoli Perygl Llifogydd os ydyw'n argymell cymeradwyaeth i'r Bwrdd. Gellir gweld y papur y gwnaeth y grŵp ei ystyried yn **Atodiad A**, sy'n cynnwys manylion llawn y cynigion.

5. I grynhoi, yr argymhellion yw cynyddu praeseptau i £298k (o £279k), ardollau arbennig i £1,175k (o £1,156k) a chyfraddau draenio i £166k (o £150k). Mae'r cynnydd oherwydd ein bod wedi adennill y swm cywir drwy'r praesept o'r Ardaloedd Draenio Mewnol er mwyn cydnabod y budd o gynnal a chadw prif afonydd ar Ardaloedd Draenio Mewnol yng ngogledd-orllewin Cymru.

## Risgiau Allweddol

6. Os na chaiff y praeseptau, cyfraddau draenio ac ardollau arbennig eu cymeradwyo yna ni fyddwn yn cyflawni'r amserlenni statudol ac ni fydd y rhaglenni gwaith yn cael eu hawdurdodi.

7. Cafodd cynnydd i'r cyfraddau draenio yng ngogledd-orllewin Cymru eu trafod a'u cytuno gyda'r grwpiau cynghori ond mae perygl o hyd o ymateb gwrthwynebus gan y rhai sy'n talu'r gost, os yw'r cynigion yn cael eu cytuno gan y Bwrdd, pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.

## Argymhellion

8. Cymeradwyo ardollau arbennig, cyfraddau draenio a phraeseptau'r Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2018–19.

## Goblygiadau Ariannol

8. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol yr Ardaloedd Draenio Mewnol. Bydd costau hysbysebu bychan er mwyn cyfathrebu'r cyfraddau draenio a gytunwyd yn yr ardal leol.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

9. Nid oes ei angen.

## Rhestr o Atodiadau

Atodiad A Cynigion cyllido Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2018–19